Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **17 Gorffennaf 23** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS**<br>**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd am wybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes mewn perthynas â Chymru.

Ceisiwyd cydsyniad gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig, i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Dilysu Dulliau Amgen ar gyfer Teipio Salmonela (Diwygio) 2023.

Gwnaed yr OS uchod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 13 Gorffennaf, wrth arfer y pwerau cydredol plws a roddwyd gan Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) 2160/2003, ar gyfer rheoli salmonela a chyfryngau milheintiol eraill a nodwyd a gludir mewn bwyd.

Mae'r OS yn diwygio'r pedwar darn canlynol o ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir, sy'n gysylltiedig â'r amryw ofynion ar gyfer samplu a phrofi am salmonela.

- **Rheoliad 1190/2012** (yn gysylltiedig â tharged undeb ar gyfer lleihau *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn heidiau o dyrcïod)
- **Rheoliad 517/2011** (mewn perthynas â tharged undeb ar gyfer lleihau mynychder seroteipiau penodol o Salmonela mewn ieir dodwy o'r rhywogaeth *Gallus gallus*)
- **Rheoliad 200/2012** (yn gysylltiedig â tharged undeb ar gyfer lleihau *Salmonella enteritidis* a *Salmonella typhimurium* mewn heidiau o frwyliaid)
- **Rheoliadau 200/2010** (mewn perthynas â tharged undeb ar gyfer lleihau mynychder seroteipiau Salmonela mewn heidiau bridio aeddfed o'r rhywogaeth *Gallus gallus*)

Bydd y diwygiad bach i'r rheoliadau, a fydd yn cynnwys cyfeiriad at ddull teipio ISO – 16140-6, yn galluogi'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i ddefnyddio Trefnu Genomau Cyfain fel dull teipio annibynnol ar gyfer Salmonela mewn dofednod.

Mae Trefnu Genomau Cyfain yn darparu mwy o wybodaeth o lawer na seroteipio traddodiadol, ac mae'n hwyluso gwneud cysylltiadau rhwng clefydau pobl a chlefydau anifeiliaid – rhywbeth sy'n allweddol ar gyfer cynnal ymchwiliadau epidemiolegol.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 13 Gorffennaf ac maent yn dod i rym ar 4 Awst 2023.

Bydd Aelodau am nodi nad yw'r Rheoliadau'n trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfreithiau sy'n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a'u diwygio gan weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, oherwydd natur y diwygiadau, ystyrir ei bod yn briodol i OS ar gyfer y DU gyfan (wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU) fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol ac yn gyson, ac yn golygu bod y Rheoliadau ar gael mewn un offeryn statudol. Yn ogystal, mae natur y newidiadau y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn fach ac yn dechnegol. O ganlyniad, rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.